

## **CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 14eg Hydref 2019**, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 8.40 p.m.

*Presennol:* Y Cyngorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)

Y Cyngorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)

Y Cyngorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams

Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir

*Ymddiheuriad:* Y Cyngorydd Michael Strain

### **43. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

### **44. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan unrhyw aelod ddiddordeb yn yr eitemau oedd i'w trafod.

### **45. CADARNHAU COFNODION**

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 9fed Medi, 2019, gan ychwanegu enw'r Cyngorydd Glenys Williams fel aelod oedd yn bresennol (ymddiheuriadau am hyn).

(Cynigiwyd gan Y Cyngorydd David Brunelli ac eiliwyd gan Y Cyngorydd Glenys Williams).

#### **(a) MATER YN CODI - Eitem 39 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**

- (i) **Cyflwynwyd** llythyr Peiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, mewn ymateb i gwynion anfonwyd i'w sylw y mis cynt (copi o'r atebiad yn ffurfio rhan o'r cofnodion).

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

#### **(ii) Eglwys Santes Mair, Bryncroes**

**Adroddodd** y Clarc iddi, o'r diwedd, dderbyn cadarnhad gan Martin Daniel Williams, Cymhorthydd Technegol, Cyngor Gwynedd, iddo dderbyn pris o £165 am wneud y gwaith o osod yr arwydd uchod. Gofynnodd i'r Cyngor gadarnhau eu bod yn hapus iddo fynd ymlaen i archebu'r gwaith hwn.

**Penderfynwyd** derbyn y pris a gofyn am i'r gwaith gael ei wneud ar fyrder.

#### **(b) Eitem 40 – Materion Iechyd**

**Adroddodd** y Clarc iddi gael gair â Swyddog yng Nghanolfan Wynnstay, Penygroeslon, ynglyn a'r hawl i roddi hysbyseb i fyny ar yr adeilad yn cyfeirio at y

peiriant diffibliwr sydd wedi ei osod yno. Mae camau ar droed i'r Cadeirydd fynd yno i drafod y mater ymhellach a bydd yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

#### 46. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** y cais a ganlyn:

Cais C19/0792/32/LL – addasu ac ymestyn adeilad allanol i greu uned wyliau hunangynhaliol yn Nhrefaes, Botwnnog.

**Penderfynwyd** cefnogi'r cais.

#### 47. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn at y Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd:

(a) gofyn iddynt ystyried wneud twll enfawr a rhoi rheiliau yn y clawdd er galluogi lliferiant y dwr ger Bwthyn Gwyn, Bryncroes. Teimlid y byddai hyn yn lleihau'r risg o ddwr yn rhedeg i'r ty.

(b) Gofyn iddynt gael golwg ar y ddifyg gwelediad sydd ar gyffordd Siop y Bont, Llangwinnadl, i fyny am Penybont Bach.

**Penderfynwyd** ymhellach anfon gair at Gyngor Cymuned Aberdaron yn tynnu sylw at y tyfiant ger Heather, Rhiw, sydd yn peri i fodurwyr orfod mynd i'r ochr i'w basio, a gofyn iddynt a fyddai modd anfon y mater ymlaen i'r Peiriannydd Rhanbarthol.

**Yn y cyswllt hwn cyflwynwyd** e-bost gan Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir, yn dweud iddo dderbyn cwyn nad oedd bin cyhoeddus yn y parc chwarae yn Sarn na ar Gomin Bryncroes.

**Penderfynwyd** gofyn i'r Adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd gyflenwi bin i faes chwarae Sarn gan fod cryn ddefnydd ohono

#### 48. **MATERION IECHYD**

**Adroddwyd** fod cwynion eto ar yr amser hir mae'r cleifion yn ceisio cysylltu a'r Feddygfa yn y bore ac wedi disgwyl cael ar ddeall fod pob apwyntiad wedi mynd. Deallwyd gan un o'r cwynyddion ei fod wedi ceisio ffonio'r Feddygfa am ddeng munud ond methu mynd drwodd ac iddo fynd yno'n bersonol a chael apwyntiad y bore hwnnw.

**Penderfynwyd** gofyn i Reolwr y Feddygfa beth yw'r polisi ynglyn a cheisio cael apwyntiadau yn y bore ac hefyd a yw gwneud apwyntiadau ar y we bellach yn weithredol.

#### 49. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliad a ganlyn:

Glyn Roberts am drwsio'r fainc ym Motwinnog £60.00  
(Yn ystod y drafodaeth ymadawodd Y Cynghorydd Glyn Roberts â'r cyfarfod).  
Diolchwyd i'r Cynghorydd Roberts am y gwaith a wnaeth ar y fainc.

50. **ARCHWILIAD Y CYFRIFON I 31 MAWRTH, 2019**

**Cyflwynwyd** adroddiad y BDO ar y cyfrifon i fyny i 31ain Mawrth, 2019 (copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen).

Dywedodd y Clarc y byddai'n paratoi adroddiad ar y pwyntiau a godwyd gan yr Achwilwyr a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf o'r Cyngor, yn y cyfamser gofynnodd a oedd y Cyngor yn barod i ailgymeradwyo ac ailardystio'r ffurflen.

**Penderfynwyd**

- (a) Nodi'r wybodaeth.
- (b) Ailgymeradwyo ac ailardystio'r ffurflen gyda'r hawl i'r Cadeirydd arwyddo'r cyfryw ar ran y Cyngor.
- (c) Rhoddi hysbyseb yn y Gymraeg yn unig i fyny mewn manau cyhoeddus o fewn y Gymdeithas i hysbysu'r trigolion fod hawl ganddynt weld y dogfennau perthnasol i'r adroddiad gydag apwyntiad o flaen llaw gyda'r Clarc.